

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU CYNGOR

BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau

Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Cynghorydd: Graham Rogers

Plaid: Llafur Cymru

Ward: Hermitage

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau::

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau Canlynol yn fy rôl fel Cynghorydd Sir Ward Hermitage (ffigyrau presenoldeb yn cael eu darparu gan CBSW):

- Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd. Grŵp Gorchwyl a Gorffen i graffu ar gontract Kingdom ac unrhyw is-grwpiau cysylltiedig eraill y gellid galw arnaf i gymryd rhan ynddynt.
- Pwyllgor Cynllunio a Phanel y Polisi Cynllunio.
- Cynrychioli Cyngor Wreccsam yng Nghyd Gyngor Cymru yn Llandrindod.
- Aelod o Fwrdd Partneriaeth Aelodaeth Tenantiaeth Wreccsam.
- Aelod o'r Pwyllgor Cwynion.
- Aelod o'r Pwyllgor SACRE
- Mynychu'r Bwrdd Gweithredol neu'r Pwyllgor Craffu neu unrhyw gyfarfodydd eraill pan fydd yr angen yn codi er mwyn codi materion sy'n effeithio ar ward Hermitage.

Rwy'n eistedd ar y Pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb gan y Cynghorydd):

- Aelod o Grŵp Trigolion Beechley Road
- Cyngor Cymuned Offa yn fy rôl fel Cynghorydd Cymuned Ward Hermitage, rwy'n helpu i drefnu Carnifal yr Haf a Pharti Nadolig y Pensiynwyr.
- Aelod o Gymdeithas Trigolion Barracksfield ac yn chwarae rhan weithredol mewn darparu gweithgareddau ar gyfer plant megis ffair haf a pharti Nadolig gydag ymweliad gan Siôn Corn a'r fflôt a ddarperir y Venture.
- Cadeirydd Plaid Lafur Wreccsam ac Aelod o CLP Wreccsam .
- Llywodraethwr Ysgol AALI Ysgol Bodhyfryd ac Ysgol Sant Christopher ac yn cymryd diddordeb gweithredol yn y modd y caiff y ddwy ysgol eu rhedeg.

Adran 2: Gweithgareddau yn fy Etholaeth:

- Rwy'n parhau i ddelio â phryderon trigolion mewn modd cyflym ac amserol naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffon neu drwy e-bost ac os yn briodol byddaf yn cysylltu â gwahanol adrannau'r Cyngor ac yn rhoi diweddariadau ar fy nghyfrif Twitter.
- Rwy'n mynd i gerdded o amgylch ward Hermitage yn rheolaidd ac o dro i dro bydd SCCH neu aelod os staff Strydwedd yn dod gyda mi a byddwn yn mynd i'r afael â phryderon y trigolion.
- Rwy'n cynnal cymorthfeydd ddwywaith y mis yn Ysgol St Christopher ac yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Hightown.
- Cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i drefnu gwiriadau cyflymder yn y ward yn ôl y gofyn
- Rwy'n dal i fynd ar ôl y mater o fabwysiadu Ffordd Range ac mae trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor ar y gweill.
- Mae gwely blodau wedi'i osod ger maes parcio'r Travellers' Rest er mwyn dod â lliw i'r rhan hon o'r ward.
- Mae ynys o flodau a llwyni wedi'i gosod yn Waterloo Place a daw â llawer o liw i'r ardal.

Bûm yn cnocio drysau yn Stockwell Grove, Norman Road a Stuart Way yn holi ynglŷn â rhyddhau man gwyrdd yn Stockwell Grove.

- Rwy'n ymgyrchu i ailsefydlu gwasanaeth bws i ardal Hermitage, gan gynnwys Monger Road er mwyn lleddfu pryderon trigolion.
- Rwy'n parhau i gynnal trafodaethau gyda pherchnogion Llety Loches Abbeyfield a Chartref Nyrsio Bay Tree er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon wrth iddyn nhw godi.
- Rwyf wedi ymgyrchu ar ran trigolion i gael gwared ar fesurau lleddfu traffig a chafwyd canlyniad cadarnhaol.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

- Ers fy ethol rwyf wedi cynnal dyddiau amgylcheddol yn y ward sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben ac rwy'n cael fy nghefnogi yn hyn gan dasglu o Ysgol St Christopher, Talu'n Ôl i'r Gymuned, Tai, Strydwedd, a byddaf hefyd yn gofyn am wasanaeth SCCH.
- Byddaf yn paratoi cylchlythyr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion am faterion ar y ward a bydd hwn yn cael ei ddanfon gennyf i ac eraill i bob eiddo dair neu bedair gwaith y flwyddyn
- Byddaf yn ysgrifennu at drigolion ardaloedd penodol ynglŷn â materion sy'n peri pryder iddyn nhw ac i drigolion Hermitage.
- Rwy'n parhau i fod a pherthnasoedd gwaith agos gyda goruchwylwyr y Gwasanaeth Prawf ac maen nhw'n dal i fy nghynorthwyo i lanhau Ward Hermitage.
- Rwyf wedi bod yn rhan o'r ymgyrch i gynnal digwyddiad i goffa gwasanaethau Syr Hugh Stockwell ac wedi gweithio gydag amrywiol aelodau o staff ar y digwyddiad llwyddiannus hwn.
- Byddaf yn mynd o amgylch y ward yn rheolaidd i weld a oes unrhyw oleuadau stryd sydd ddim yn gweithio ac yna'n cysylltu â Goruchwylwr Gwaith Trydanol Strydwedd.
- Cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â thrin y llyisiau dial y tu ôl i dai yn Ffordd Range, mae'r gwaith a wnaed dros gyfnod hir o amser i gael gwared ar y planhigyn hwn wedi bod yn llwyddiannus.

Adran 4: Dysgu a Datblygu:

- Rwy'n parhau i fynychu gweithdai'r aelodau i gynyddu fy ngwybodaeth a'm hymwybyddiaeth o bob mater sy'n effeithio ar fy rôl fel Cyngorydd Sir a Chymuned.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

- O dro i dro, yn ôl yr angen byddaf yn ystyried cysylltu â Mr Ian Lucas AS a Ms Lesley Griffiths AC.
- Rwyf wedi bod yn rhan o'r cyfarfodydd yn ymwneud â chronfa etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf .

Llofnod y Cyngorydd:

Clr Graham Rogers

Dyddiad: 6 Gorffennaf 2018